**LC1017**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 21) 2005**

Diben y Rheoliadau hyn yw cychwyn adran 61 o'r Ddeddf Safonau Gofal sy'n ei gwneud yn dramgwydd i unrhyw un gymryd arno ei fod yn weithiwr cymdeithasol gyda'r bwriad o dwyllo. Gan fod hon yn dramgwydd ar draws awdurdodaeth Cymru a Lloegr, caiff y gorchymyn cychwyn ei wneud ar y cyd.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.7.

**Sylwadau**
Ar hyn o bryd, nid yw'r nodyn ynghylch gorchmynion cychwyn blaenorol o dan y Ddeddf hon yn cynnwys manylion llawn y gorchmynion cychwyn blaenorol sy'n berthnasol i Gymru. Deellir y caiff y rhain eu hychwanegu cyn cyhoeddi'r gorchymyn. Caniateir hyn oherwydd nad yw'r nodyn yn ffurfio rhan weithredol o'r Gorchymyn i'w gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Nid oes angen y wybodaeth honno ar yr Aelodau er mwyn deall effaith y Gorchymyn hwn gan fod adran 61 yn ddarpariaeth annibynnol.

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**8 Chwefror 2005**